Cydymdeimlad, Cofion a Chyfarchion

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Hafwen Roberts (Henllan) yn dilyn marwolaeth ei chwaer, Mrs Margaret McCall. Gweddïwn y bydd y teulu oll yn adnabod holl ddaioni Duw yn gwarchod drostynt yn eu galar a'u hiraeth amdani.

Parhawn i gofio am Eurgain Pierce (Llannefydd) sy'n cael gofal yn yr Inffirmari, fel ag y mae Merfyn Hughes (Llansannan) yn Ysbyty Clatterbridge a diolchwn am bob gofal y maen nhw'n ei dderbyn yno. Dymunwn wellhad buan i Gethin Williams (Groes), Iorwen Roberts (Llansannan), Lona Tudor Jones (Cefn Meiriadog) ac Idris Hughes (Cefn Berain) – y pedwar ohonynt wedi treulio rhai dyddiau yn yr ysbyty dros yr wythnosau diwethaf. Diolchwn amdanynt a hyderwn y byddant yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal ac yn eu hiacháu.

Anfonwn ein cofion hefyd at Llinos Hughes (Cefn Berain) sydd wedi mynd i gartref Bron Afallen, Cerrigydrudion i gael gofal seibiant, a chofiwn hefyd am Gwen Evans (Saron) a Dilys Jones (Nantglyn) sy'n cael gofal yng Nghartref Dolwen, Dinbych fel ag y mae Richard M. Jones (Cefn Berain) yng Nghartref Gofal Tŷ Cariad, Abergele. Cyflwynwn hwy i ofal yr Arglwydd gan ofyn iddo eu hamgylchynu gyda thrugaredd a daioni.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Meirick Ll. Davies (Cefn Meiriadog) fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig yn y dyddiau nesaf!

Apêl Argyfwng y Dwyrain Canol

Diolch i bawb ohonoch sydd eisoes wedi cyfrannu tuag at Apêl Argyfwng y Dwyrain Canol. Rydym wedi penderfynu rhoi casgliad yr Oedfa Garolau hefyd tuag at yr apêl, felly os oes unrhyw un arall eisiau cyfrannu, mae'r dyddiad cau wedi ei ymestyn tan ddydd Llun nesaf, Rhagfyr 11eg.

Os dymunwch gyfrannu, gofynnwn i chi i wneud hynny ar-lein os yw hynny'n bosib (anfonwch neges i Mair i gael y manylion banc) neu gallwch anfon siec i Mair yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled' gyda 'Dwyrain Canol' wedi ei ysgrifennu ar y cefn, **erbyn dydd Llun, Rhagfyr 11eg,** os gwelwch yn dda.

Manylion Cyswllt

Mair – mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 07900 627536

Cyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf i'w hanfon i Mair erbyn nos Fercher (20ed), os gwelwch yn dda.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 10 Rhagfyr 2023

eglwysibroaled.com *rhaglendorcas.com* *llanw.org*

Dwi ddim yn cofio

Doedd o ddim yn cofio. Fwy nag unwaith yn ystod ei ymddangosiad gerbron y Farwnes Heather Hallett ac Ymchwiliad Covid-19, ateb Boris Johnson i gwestiynau Hugo Keith, Cwnsler yr Ymchwiliad, oedd nad oedd ganddo gof am yr union gyfarfod neu drafodaeth neu eiriau hynny. Gallwn gydymdeimlo â Mr Johnson o feddwl nad yw'n rhwydd cofio pob manylyn am bethau a ddigwyddodd bron i bedair blynedd yn ôl. Ond o gofio iddo, dros flwyddyn gyfan mae'n debyg, gael ei baratoi'n ofalus gan dîm o gyfreithwyr ar gyfer ei ymddangosiad gerbron yr Ymchwiliad, mae'n anodd osgoi'r casgliad mai dyma'i ymateb parod i unrhyw gwestiwn nad oedd am ei ateb.

Doedd Mr Johnson, wrth gwrs, ddim gerbron llys nac yn cael ei erlyn mewn unrhyw fodd ddydd Mercher a dydd Iau; ac eto, roedd ei 'Dwi ddim yn cofio' yn fwy parchus a gweddus, ac yn llai cyhuddol a damniol na 'Dim sylw. *No comment*'. Ond pe fyddai o, neu unrhyw un arall o ran hynny, o flaen ei well, go brin y byddai'r ateb a roddodd mor fynych wedi gwneud lles iddo. Byddai'n anodd i reithgor na barnwr roi fawr o goel ar rywun a honnai nad oedd ganddo gof am unrhyw beth a allai adlewyrchu'n wael arno.

Ond os nad oedd y cyn Brif-Weinidog gerbron llys, daw dydd y bydd raid nid yn unig iddo fo ond i bawb ohonom ymddangos mewn llys uwch a cherbron barnwr mwy na'r un llys a barnwr daearol. Fel dywed Paul yn ei Lythyr Cyntaf at yr eglwys yng Nghorinth, 'Oherwydd rhaid i bawb ohonom ymddangos gerbron brawdle Crist, er mwyn i bob un dderbyn ei dâl yn ôl ei weithredoedd yn y corff, ai da ai drwg' (5:10). Mae'n sobri dyn i ddeall y bydd rhaid rhoi cyfrif ryw ddydd am y cyfan: pob meddwl; pob gair; pob gweithred. Thâl hi ddim i ddweud gerbron Duw'r Barnwr nad oes gennym gof am y meddwl anllad a'r gair anwir a'r weithred anghyfiawn. Os na fyddwn ni'n cofio, bydd Duw'n cofio. Ac ni fydd blwyddyn nac oes o baratoi ein hamddiffyniad, yn y gobaith o'n hesgusodi neu'n cyfiawnhau ein hunain, yn tycio dim.

Byddai deall hynny'n ein digalonni ac yn peri i ni anobeithio'n llwyr oni bai am yr Efengyl: y newydd da am y Gwaredwr a'r Eiriolwr y dathlwn ei ddyfodiad ar Ŵyl y Geni. Nid un sy'n ein hyfforddi i ateb yn ddoeth gerbron y Barnwr mohono ond yr un a fydd, ar sail ei fywyd a'i farwolaeth a'i atgyfodiad, yn ateb trosom am iddo fynd yn gyfrifol am ein beiau a dwyn y gosb yn ein lle.

Y Parch. John Pritchard

Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Rhagfyr 10fed

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac **yng Nghefn Meiriadog** am 11:00 o dan arweiniad Mr Alun Jones. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa yng Nghefn Berain** am 9:30 ac **yn Groes** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Alan Spencer. Bydd Ysgol Sul yn Henllan am 10:00.

- **Gwasanaeth Carolau Plwyf Llannefydd** yn yr Eglwys am 6:00 yr hwyr. Gwneir casgliad at Gymdeithas y Beibl.

Dydd Llun, Rhagfyr 11eg

- **Cyfarfod Plant Ysgol Pantpastynog** o 3:00-4:00 y pnawn o dan ofal tîm Bro Dinbych.
- **Oedfa Garolau'r Nadolig (Pwyllgor Chwiorydd EBC)** i'w gynnal dros ZOOM ar am 7:00 yr hwyr ar y thema 'Iesu, Doethineb Duw'. Cysylltwch â'r swyddfa i dderbyn y ddolen i gysylltu: 01678 520065 / eirian.roberts@ebcpcw.cymru

Dydd Mawrth, Rhagfyr 12fed

- **Cinio Jangl** yn Festri Llansannan am 12:00.

Dydd Iau, Rhagfyr 14eg

- **Parti Nadolig Hwyl Pnawn Iau (ar gyfer oedran derbyn – Bl.6)** yn Festri Llansannan o 3:15–4:30 y pnawn.

Dydd Sul, Rhagfyr 17eg

- **Gwasanaeth Nadolig Ysgol Sul Llansannan** am 10:00 a chasgliad arbennig tuag at Gymdeithas Clefyd Motor Niwron. I ddilyn, bydd paned a mins pei, a pharti i'r plant. Croeso cynnes i bawb.
- **Gwasanaeth Nadolig yn Groes** am 10:00 a phaned a mins pei i ddilyn.
- **Ysgol Sul yn Henllan** am 10:00 i baratoi at y Gwasanaeth Nadolig.
- **Gwasanaeth Carolau yn Saron** am 10:00. Gwneir casgliad at Hosbis San Cyndeyrn a bydd cyfle i ddilyn am sgwrs dros baned a mins pei. Croeso cynnes i bawb.
- **Gwasanaeth Nadolig yng Nghefn Meiriadog** am 10:30 a phaned a mins pei i ddilyn. Croeso cynnes i bawb.
- **Gwasanaeth Nadolig yng Nghefn Berain** am 10:30 a Pharti Nadolig i ddilyn ac ymweliad gan Sion Corn.
- **Gwasanaeth Nadolig Teuluol yn Llanfair** am 11:00 ac i ddilyn, cinio i bawb yn y Neuadd Goffa.
- **Gwasanaeth Nadolig yn Llannefydd** am 11:00 a pharti i ddilyn.
- **Gwasanaeth Nadolig yn Nantglyn** am 2:00 y pnawn a pharti i ddilyn.

Dydd Llun, Rhagfyr 18fed

- **'Awn i Fethlehem'** – Gwasanaeth Carolau Cymdeithas Llansannan yn Eglwys Sant Sannan am 7:30 yr hwyr. Gwneir casgliad tuag at Gymdeithas Clefyd Motor Niwron Croeso i bawb.

Dydd Mawrth, Rhagfyr 19eg

- **Cinio Nadolig Jangl** yn Festri Llansannan am 12:00.

Dydd Sul, Rhagfyr 24ain

- **Gwasanaeth Nadolig yn Henllan** am 2.00 y pnawn a bydd casgliad arbennig tuag at Shelter Cymru. Yn dilyn y gwasanaeth, bydd Parti Nadolig ac ymweliad gan Siôn Corn. Croeso i bawb.

Dydd Sul, Rhagfyr 31ain